# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 11 Mehefin 2015** |
| Amser: | **11.03 – 15.05** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/3022**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Altaf Hussain AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC** |
| Tystion: | **Vaughan Gething AC, Y Dirprwy Weinidog Iechyd**<br>**Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Sarah Watkins, Llywodraeth Cymru**<br>**Simon Burch, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Parry Davies, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Emma Sands, Cynghrair Henoed Cymru**<br>**Meleri Thomas, Cynghrair Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru**<br>**Keith Bowen, Cynghrair Cynhalwyr Cymru**<br>**Rick Wilson, Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion** |

| | |
|---|---|
| | Jim Crowe, Grŵp Cyfeirio Anabledd<br>Samantha Clutton, Barnardo's Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Christopher Warner (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Amy Clifton (Ymchwilydd)<br>Elfyn Henderson (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau: cyfarfod anffurfiol â grwpiau cyfeirio

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar, Lynne Neagle a Kirsty Williams. Dirprwyodd Jenny Rathbone ar ran Lynne Neagle yn ystod eitemau 2, 3, 4 a 5.

2.2 Mynegodd y Pwyllgor ei gydymdeimlad â Lynne Neagle yn dilyn profedigaeth deuluol.

## 3 Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau: sesiwn dystiolaeth 10

3.1 Atebodd y Dirprwy Weinidog gwestiynau gan Aelodau.

3.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu'r eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- nodyn yn manylu ar y targedau a'r mesurau penodol a gaiff eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i fesur effeithiolrwydd y £50 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a sylweddau yn ystod y flwyddyn nesaf (yn enwedig mewn perthynas â darparu gwasanaethau a newid ymddygiad pobl); a
- chopi o'r gwaith ymchwil a wnaed gan Brifysgol Sheffield ynghylch effaith cyflwyno isafswm pris uned yng Nghymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn ar gyfer eitemau 5 a 10, ac o'r cyfarfod ar 17 Mehefin 2015 ar gyfer eitemau 1 a 2.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ar nifer o bwyntiau nas trafodwyd yn ystod y cyfarfod.

## 6 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015: sesiwn dystiolaeth 1

6.1 Atebodd y tystion gwestiynau gan yr Aelodau.

6.2 Cytunodd y tystion i roi gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor am yr asesiad a gynhaliwyd ganddynt ynghylch yr effaith ar wasanaethau gwybodaeth a chyngor os bydd angen i'r pwynt cyswllt cyntaf fod yn hyfedr o ran cynnal asesiadau.

## 7 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015: sesiwn dystiolaeth 2

7.1 Atebodd y tystion gwestiynau gan yr Aelodau.

7.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r tystion rannu eu sylwadau ar yr ohebiaeth a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a gaiff ei dosbarthu fel papur i'w nodi ar gyfer y cyfarfod ar 17 Mehefin 2015.

## 8 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015: sesiwn dystiolaeth 3

8.1 Atebodd y tystion gwestiynau gan yr Aelodau.

## 9 Papurau i'w nodi

9.1 Ymchwiliad i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: gwybodaeth ychwanegol

9.1a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol a gafwyd.

9.2 Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau: gwybodaeth ychwanegol

9.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol a gafwyd.

9.3 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

9.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 10 Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwystra) (Cymru) 2015: trafod y dystiolaeth

10.1 Nododd y Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a thrafododd y dystiolaeth a ddaeth i law.

10.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn nodi ei bryderon ynghylch y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â rhan 4 (anghenion cyfarfodydd).